# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 09/04/2024 am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Catrin Roberts (Cad) | Caren Jones | Gruffydd Williams | Arfon Hughes | Gareth Jones |
| Gwynfor Jones | Lleucu Jones | Rhys Llewelyn | Mared Llywelyn Williams | Carys Roberts |
| Pat Humphreys (Clerc) | | | | |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Gito Williams, Iwan Evans, Alaw Llewelyn Roberts, Rhian Sanson a Janice Evans.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol.**
   Dim.

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Hybrid 12/03/2024
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Arfon Hughes  Eilio: Gareth Jones
   Materion yn codi o'r cofnodion:
   Mae un o'r aelodau eisiau cofnodi fod CTN wedi pasio i roi'r baneri a'r bynting oedd dros ben ar ôl harddu'r ardal ar gyfer yr Eisteddfod y llynedd i'r Amgueddfa i'w defnyddio ar gyfer Penwythnos Porthi'r Penwaig.

4. **Unrhyw Fater Brys**
   1. **Absenoldeb yr is-gadeirydd am y 4 mis nesaf**
      Derbyniodd y clerc ebost gan yr is-gadeirydd yn dweud y bydd yn absennol o'r cyfarfodydd tan mis Awst gan ei bod yn mynd dramor i drafeilio. Mae'r clerc wedi egluro wrthi y bydd cadeirydd ac is-gadeirydd newydd yn cael eu dewis yn y cyfarfod blynyddol y mis nesaf ac felly fe fydd yr aelodau yn cymeryd hyn i ystyriaeth wrth iddynt ddewis ond mae'r is-gadeirydd wedi dweud ei bod yn awyddus i gario ymlaen yn y swydd ar ôl iddi ddod nol petai'r aelodau yn dymuno hynny.
   2. **Ebost Emily Sherratt – cais am gefnogaeth**
      Derbyniwyd ebost yn gofyn am help a chefnogaeth gan CTN i gael tŷ cyngor yn Nefyn.
      Penderfyniad: Nid yw digartrefedd yn ran o gylch gwaith Cynghorau Cymuned a Thref. Mae'r clerc am ei chyfeirio at Dîm Opsiynnau Tai a Swyddogion Cyngor Gwynedd sydd yn delio hefo hyn ac mae ganddyn nhw bolisiau ar gyfer gosod tai ond mae'r cynghorwyr yn cydymdeimlo hefo hi ac yn dymuno'r gorau iddi.
      Cynnig: Gruffydd Williams  Eilio: Carys Roberts
   3. **Cyfarfod Amgueddfa Forwrol Nefyn nos yfory yn yr Heliwr am 6yh.**
      Mae cyfarfod yn cael ei gynnal yn Yr Heliwr nos yfory gan Amgueddfa Forwrol Llŷn i drefnu Penwythnos Porthi'r Penwaig ac maent wedi rhoi gwahoddiad i CTN fynd yno i helpu hefo'r trefniadau. Mae dau aelod yn bendant am fynychu ac maent am fynd a'r baneri a'r bynting hefo nhw i'w rhoi iddynt.

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com

5. **Cais am ganiatad i newid dyddiad cyfarfod mis Mehefin –** Clerc
   Cais yw hwn gan y clerc i symud dyddiad cyfarfod mis Mehefin ymlaen wythnos sef o'r 11eg o Fehefin i'r 18fed o Fehefin gan fod ei mhab yn priodi ar yr 8fed o Fehefin ac mae hi angen cymeryd pythefnos i ffwrdd sef o'r 3ydd o Fehefin i'r 14eg o Fehefin i help hefo'r trefniadau.
   Penderfyniad: Pasiwyd i ganiatau hyn.
   Cynnig Arfon Hughes Eilio: Gareth Jones

6. **Newid y Mesurydd Trydan yn y Llyfrgell Nefyn i un 'Smart' -** Clerc
   Derbyniodd y clerc alwad ffôn gan E.On Next yn gofyn i gael newid mesurydd trydan Llyfrgell Nefyn i un 'smart'.
   Penderfyniad: pasiwyd i beidio ei newid ar y funud.
   Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Catrin Roberts

7. **Talu treth Dŵr y Llyfrgell drwy Debyd Uniongyrchol –** Clerc
   Mae'r clerc wedi derbyn anfoneb treth dŵr Llyfrgell Nefyn ac mae'n dweud nad ydynt yn derbyn sieciau ddim mwy a'r unig ffordd arall o dalu sy'n ddilys i CTN ei wneud yw drwy debyd uniongyrchol.
   Penderfyniad: pasiwyd i dalu'r anfoneb drwy debyd uniongyrchol o hyn allan.
   Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Catrin Roberts

8. **Ebost Penny Petroleum – Siop Pistop Morfa**
   Nid yw'r aelodau wedi cael cyfle i siarad hefo'r staff yn iawn felly ei roi ar agenda mis nesaf.

9. **Trin y canllawiau ar llwybr Penrallt –** Gruffydd Williams
   Mae aelod lleol Nefyn wedi tynnu sylw at y canllawiau ar lwybr Penrallt Nefyn ac yn gofyn os oes modd eu trin gyda rhywbeth neu mi fyddent yn dechrau pydru.
   Penderfyniad: y clerc i ofyn i weithiwr CTN i fynd i'w trin ac hefyd trin pont bren Bryn Mynach sydd yn mynd dros yr afon i Bro Gwylwyr.
   Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Rhys Llewelyn

10. **Erthygl papur newydd ar geir trydan –** Arfon Hughes
    Mae un o'r aelodau wedi gweld erthygl papur newydd yn dweud fod Cyngor Gwynedd yn gwario £1 milliwn ychwanegol ar 67 o geir letric drost y ddwy flynedd nesaf. Mae gan yr aelod nifer o gwesitynnau ynglŷn â hyn, yn bennaf sut maent yn gallu cyfiawnhau gwario'r fath swm o arian.
    Penderfyniad: yr aelod a'r clerc i ddrafftio llythyr i Cyngor Gwynedd yn gofyn wrthynt sut y maent yn gallu cyfiawnhau gwario yr holl arian yma ynghyd a nifer o gwesitynnau eraill, a'i anfon i Cyngor Gwynedd ac hefyd i Gynghorau Cymuned a Thref eraill yng Ngwynedd i ofyn am eu cefnogaeth i lythyru Cyngor Gwynedd hefyd.
    Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Gwynfor Jones

11. **Gohebiaeth a Dderbyniwyd**
    1. **Cais am gefnogaeth parthed Cynllun Heddlu Ysgolion –** Cyngor Cymuned Dolbenmaen
       Penderfyniad: pasiwyd i'w cefnogi.
       Cynnig: Catrin Roberts Eilio: Rhys Llewelyn

2. **Cais am arian Cylch Meithrin Edern** – ail-gyflwyniad o bwyllgor mis Mawrth ac Ebrill ar ôl derbyn gwybodaeth ychwanegol.
   Penderfyniad: pasiwyd i gyfrannu £600.00 tuag at yr ipads.
   Cynnig: Gwynfor Jones Eilio: Mared Llywelyn Williams

**12. Ceisiadau Cynllunio**

**C24/0206/42/LL** – Cân Y Môr, Lôn y Castell, Nefyn – Cais llawn i ddymchwel 2 dŷ presennol a chodi 2 dŷ newydd yn eu lle.
**Penderfyniad**: dim gwrthwynebiad.
**Cynnig**: Arfon Hughes Eilio: Carys Roberts
**C24/0197/42/DT** – Llechwedd, 4 Fron Terrace, Nefyn – Dymchwel estyniadau unllawr ac adeiladau allanol presennol ac adeiladu estynaid ochr deulawr newydd gydag estyniad cefn unllawr to fflat.
Penderfyniad: dim gwrthwynebiad ar yr amod nad yw'r maint troed (footprint) yn mynd ddim mwy.
Cynnig: Carys Roberts Eilio: Arfon Hughes

Ceisiadau Diweddarach
**C24/0131/42/DT** – Hafan, Lôn Bridin, Morfa Nefyn – gwaith allanol gan gynnwys adfer ac ymestyn ardal teras/patio, codi wal newydd ynghŷd ag amrywiol addasiadau eraill.
Penderfyniad: Gwrthod – y cynllun ddim yn gweddu i'r ardal.
Cynnig: Catrin Roberts Eilio: Mared Llywelyn Williams

**13. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc - £1407.98 (taliad BACS)
- Replay Maintenance – gwaith cynnal a chadw ar y cae aml ddefnydd - £714.00 (o gyfrif Bryn Mynach)
- John Gwynfor Jones – agor bedd Margaret Mary Williams - £450.00
- Cyngor Gwynedd – Treth Llyfrgell Nefyn 2024-2025 - £1390.95
- D M Parry – pumed taliad mynwent Edern a taliad cyntaf mynwent Morfa Nefyn - £750.00
- Ashley Hughes – offer swyddfa - £22.39
- Alan Adams – taliad 1 cytundeb llwybrau & gwaith ychwanegol - £1437.40
- HMRC – PAYE mis 12 - £233.25
- E.On Next – trydan Llyfrgell mis Mawrth - £170.54

Penderfyniad: Talu pob anfoneb.
Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Rhys Llewelyn

**14. Taliadau wedi eu derbyn**

- G D Roberts – angladd Kelvin William Deane - £730.00

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com

Clerc: Pat Humphreys

Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.

• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com